
Llwyfannau rhannu fideos: pwy sydd angen hysbysu Ofcom?

Arweiniad: Trosolwg Cymraeg

Trosolwg

Daeth rheoliadau newydd sy'n berthnasol i wasanaethau llwyfannau rhannu fideos (VSP) a sefydlir yn y DU i rym ar 1 Tachwedd 2020. O 6 Ebrill 2021, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar ddarparwyr VSP o dan awdurdodaeth y DU i gyflwyno hysbysiad ffurfiol o'u gwasanaeth i Ofcom.

Mae Ofcom wedi cyhoeddi [arweiniad](#) i helpu darparwyr i ddeall:

- a) a ydynt yn dod o dan gwmpas y diffiniad o VSP at ddibenion Deddf Cyfathrebu 2003 ("y Ddeddf"), gan gynnwys
- b) a ydynt yn dod o fewn awdurdodaeth y DU; a
- c) phryd a sut y gallai fod angen iddynt hysbysu Ofcom am eu gwasanaeth.

O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i ddarparwyr VSP gymryd camau i ddiogelu defnyddwyr eu gwasanaethau rhag deunydd niweidiol. Byddwn yn cyhoeddi arweiniad ar wahân ar gyfer darparwyr VSP ynghylch eu rhwymedigaethau rheoleiddio yn y maes hwn.

Gall darparwyr yrru e-bost i Ofcom yn VSPRegulation@ofcom.org.uk os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am y gofynion o ran hysbysu a chwmpas. Fodd bynnag, ni allwn ddarparu cyngor cyfreithiol am wasanaethau unigol ac mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb ar bob darparwr i fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol o ran hysbysu.

Sut a phryd i hysbysu am wasanaeth llwyfan rhannu fideos – yn gryno

Mae'r arweiniad yn canolbwyntio ar y meini prawf sy'n ffurfio'r diffiniad o VSP yn y Ddeddf, er mwyn helpu darparwyr gwasanaethau i asesu:

- ai prif bwrpas eu gwasanaeth, yn gyfan gwbl neu 'ran ddatgysylltiol' ohono, yw darparu fideos i'r cyhoedd;
- ai darparu fideos i'r cyhoedd yw swyddogaeth hanfodol y gwasanaeth;
- a yw'r gwasanaeth yn cael ei darparu drwy rwydwaith cyfathrebu electronig;
- a yw'r gwasanaeth yn cael ei darparu ar sail fasnachol;
- a yw'r gwasanaeth yn cael ei darparu gan unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros drefnu fideos, ond nid dros ba fideos sydd ar gael i ddefnyddwyr; ac
- a yw darparwr y gwasanaeth o fewn awdurdodaeth y DU.

Mae'r meini prawf yn y Ddeddf yn cael eu cymhwyso ar ffurf gynyddol. Mae'r holl feini prawf yn bwysig wrth wneud asesiad a dylai darparwyr roi sylw gofalus iddynt.

Bydd angen i ddarparwyr ystyried yn ofalus ai darparu fideos i'r cyhoedd yw:

- 'prif ddiben' (h.y. prif weithgaredd neu amcan) y llwyfan yn ei chyfanrwydd neu 'ran ddatgysylltiol' ohoni (h.y. rhan o'r llwyfan sy'n ddigon gwahanol i'r gweddill ohoni); neu'n
- 'swyddogaeth hanfodol' y gwasanaeth yn gyffredinol (h.y. pan fydd darparu fideos yn cyfrannu'n sylweddol at werth masnachol neu swyddogaethol eu gwasanaeth).

Bydd angen i ddarparwyr hefyd ystyried y lefel o reolaeth sydd ganddynt dros yr amrywiaeth o gynnwys fideo sydd ar gael ar ei wasanaeth a'r ffordd y mae'n cael ei drefnu. Pan fydd gan

Arweiniad: Llwyfannau rhannu fideos - pwy sydd angen hysbysu Ofcom?

ddarparwr reolaeth dros ba fideos sydd ar gael ar ei wasanaeth, byddai hyn yn awgrymu bod angen iddynt ei hysbysu fel gwasanaeth rhaglenni ar alw (ODPS) yn hytrach na VSP.

Bydd angen i ddarparwyr benderfynu a oes ganddynt y cysylltiad gofynnol â'r Deyrnas Unedig i ddod o fewn awdurdodaeth y DU. Bydd angen iddynt ystyried y math o weithgarwch economaidd y maent yn ei ddilyn yn y DU a'u canolfan weithgarwch mewn perthynas â'r gwasanaeth VSP, o'i gymharu ag unrhyw sefydliadau eraill yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Os nad yw darparwr gwasanaeth VSP ei hun yn bresennol yn y DU neu'r AEE, gall fod yn berthnasol ystyried sefydlu endidau eraill o fewn yr un grŵp.

Mae'r arweiniad hefyd yn disgrifio pryd a sut y bydd disgwyl i ddarparwr hysbysu, ac yn amlinellu'r broses a'r wybodaeth sydd eu hangen.